Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
CHWEFROR 2007

DYDDIAD	Nos Fercher, 14eg Chwefror, 2007
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd Rhostryfan
AELODAU YN BRESENNOL	Huw Williams (Cad), Meurig Williams, Jason Hunt, Gwilym L.Williams, Gwilym V.Thomas, Neal Williams, Nerys Evans
HEFYD YN BRESENNOL	Bethan Williams (clerc)

1. **Ymddiheuriadau**
Hugh Jones, Elwyn Jones, Emrys Jones, Elin Evans

2. **Croeso**

3. **Datgan Buddiant**

4. **Cadarnhau cofnodion** cyfarfod diwethaf gynhaliwyd ar nos Fercher, Ionawr 17eg, 2007.

5. **Materion i'w trafod:**
   - **a)** Cyfarfod â'r Cynghorau Cymuned efo Cyngor Gwynedd. HW a MW ynghyd â'r clerc i fynychu – nos Iau, 22ain o Fawrth yng Nghyngor Gwynedd, Caernarfon.
   - **b)** Copi o lythyr anfonwyd ar ran grŵp ffordd osgoi Bontnewydd at Robin Shaw, Cynulliad – er gwybodaeth.
   - c) Cynllun Uwchgwyrfai – copi o lythyr anfonwyd at Alun Ffred Jones gan Carwyn Jones AM yn amlinellu'r sefyllfa rhwng Cymad a'r Cynulliad, ac e-bost gan Elwyn Vaughan yn datgan fod Cymad bellach wedi mynd yn ôl at y Cynulliad efo'r manylion y gofynnwyd amdanynt. Angen ysgrifennu eto i bwyso ar i'r gwaith gael ei wneud ar fyrder.
   - d) Steps sy'n arwain i'r mynydd ger Ochr Muriau – ymateb gan Peter Evans a Victoria Bowmaker, CCW yn nodi nad yw'n meddwl fod y tir ym mherchnogaeth CCW. Angen mynd yn ôl at Gyngor Gwynedd eto i bwyso arnynt i drwsio'r stepiau.
   - **e)** Lein Bryngwyn – heb dderbyn ymateb gan Bill Hastings hyd yma.
   - f) Dwr yn y ffordd ger tai Ffrwd Cae Du – clerc i sgwennu at Gyngor Gwynedd eto.
   - g) Cyffordd Ffrwd Cae Du – wedi gofyn am gael 'lane' ychwanegol i fynd i'r chwith beth amser yn ôl – clerc i gysylltu.
   - h) Gwyneb y ffyrdd ar Lôn Bwmp, ger Tai Ffridd, Rhosgadfan ac yn gyffredinol o Rhostryfan i lawr i Dinas yn wael iawn – clerc eisoes wedi cwyno ac yn disgwyl ymateb.
   - i) NW am ofyn i gael symud arwydd 30 wrth ddod i mewn i Rhosgadfan yn is lawr, ger Preswylfa – clerc i ymholi.
   - j) Cwynion ynglyn â chyflenwad trydan yn Rhosgadfan. Clerc wedi cysylltu efo Manweb, heb gael ymateb hyd yma.

k) HW – torri gwair ger Gwelfor – angen sicrhau fod hwn ar y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn yma – clerc i atgoffa'r adran.
l) HW – cofeb Kate Roberts ar Lôn Wen – pwyso ar y Cyngor Sir i wneud y gwaith atgyweirio – clerc i sgwennu at Steffan Jones eto ynglŷn â chyflwr ofnadwy y gofeb.
m) Angen ysgrifennu at y Cyngor Sir yn eu hysbysu fod y ddwy gofeb ger safle Capel Graianfryn wedi'u dwyn.
n) Cwynion ynglyn ag amserlen bysiau oherwydd fod y ffyrdd yn cau. Clerc wedi ffonio Silver Star ac wedi cael ar ddeall fod y bysiau yn rhedeg fel arfer yn yr ardal yma bellach.
o) Clerc wedi cael galwad ffôn gan swyddog o Gyngor Gwynedd yn nodi fod cwynion wedi dod i law ynglŷn a'r gysgodfan fysiau sydd wedi'i lleoli ym Mhenffordd, Rhosgadfan – mae'n ymddangos fod y gysgodfan wedi dod yn rhydd ac angen gwaith atgywieirio arno. MW, HW a NW i gael golwg ar y safle ac adrodd yn ôl.
p) Clerc wedi derbyn ffurflenni Clwb 100 Bro Llanwnda – ymgais i godi arian rheolaidd ar gyfer y neuadd newydd. Gellir cysylltu â'r clerc os am dderbyn ffurflen.

6. **Derbyn Adroddiadau:**

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	19,506.39
Cyfri Siec:	152.84
CYFANSWM	19,659.23
Cyflog/costau clerc – Chwefror	371.36
Ad-daliad printer	265.74
Cyllid y Wlad	90.64
John D.Roberts – archwilio	63.00
Hacker Young – archwilio	141.00
Ail ymuno efo Un Llais Cymru @ £190	190.00
YN WEDDILL	**£18,537.49**

Wedi derbyn nodyn diwedd archwiliad gan Hacker Young. Nodir ei bod yn adroddiad lân.
Cwmni yswiriant Zurich wedi anfon pris o £1,036.08 ar gyfer premiwm blwyddyn. Clerc i ymholi os oes pris mwy cystadleuol ar gael.

9. **Materion Cynllunio**

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO6A/0884/24/LL – Ty'n Rhos, Llanwnda – dileu amod 3 o ganiatad CO2A/0331/24/LL a gosod 12 carafan tymhorol ar y safle am 10 mis a hanner.
CO7A/0068/24/LL – Ty'n Twll, Rhosgadfan – estyniad

Eisoes wedi'u caniatau:
Penrhos Bach, Llanwnda – gosod tyrbin gwynt
Tŷ Hen, Llanwna – addasu adeilad amaethyddol i swyddfa
Ty'n Ffrwd, Rhostryfan – codi tŷ newydd – nodyn: 'hysbysir yr ymgeisydd y dylid cadw y plac ar y tŷ, sydd yn nodi y ffaith yr arferai hwn fod yn gartref i'r bardd Glasynys'
Hafod Ruffydd, Rhosgadfan – estyniad
Tafarn Hen, Llanwnda – newidiadau mewnol ac allanol
Tŷ Maen, Rhostryfan – adeiladu tŷ a mynedfa newydd

Gwrthodwyd:
Tir ger Bodawen, Rhostryfan - cynllun diwygiedig i gais rhif CO3A/0816/24/MG ar gyfer 17 o dai deulawr.

10. **Gohebiaeth:**

a) Cyfadran Adnoddau – gorchymyn cau ffordd rhwng Penyceunant a sgwar Rhos Isaf (cychwyn 22.1.07) – gwaith bellach wedi'i orffen.
b) Cynulliad – Byrddau Gwasnaethau Lleol – papur ymgynghori
c) Cyfarwyddwr Strategol, Cyfadran yr Amgylchedd – ymchwiliad cyhoddus lleol i wrthwynebiadau gafodd eu gwneud yn briodol i Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd.
d) Adran Briffyrdd – rhaglen waith misol
e) Heddlu Gogledd Cymru – swyddogaethau'r heddlu
f) Cynulliad – cyfarfod pwyllgor Rhanbarth y Gogledd
g) Cyfadran yr Amgylchedd – trefniadaau casglu gwastraff newydd, ardal Arfon & Casgliad gwastraff gwyrdd
h) Sefydliad Aren Cymru – 'Walk For Life'
i) Cylchgronnau
j) Llythyr gan Chas Medforth yn nodi nad yw wedi derbyn ymateb gan Glynllifon ynglŷn â phrynu tir ar gyfer y fynwent
k) Cynulliad – swm priodol o dan Adran 137 (£5.64 y pen); rheolau benthyg arian ar gyfer cynghorau cymuned
l) Adran yr Amgylchedd – nodyn i roi gwybod fod bwriad i gau ffordd Bwlan, Llandwrog am gyfnod o bedair wythnos, yn cychwyn ar Chwefror 26ain.
m) Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon – cais am nawdd ar gyfer 'Dydd y Cyn Filwyr' sydd i'w gynnal yng Nghaernarfon ar Orffennaf 14eg eleni. Penderfynwyd rhoi £150 fel rhodd gan ystyried fod nifer o gyn filwyr yn byw yn Llanwnda. Clerc i anfon llythyr yn nodi'r addewid.
n) Cynulliad – gorchymyn fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub
o) E-bost gan Mel Fôn yn datgan fod ein harwyddion bellach wedi cyrraedd, ond fod angen gwaith i addasu'r polion. Gobeithio bydd y gwaith o osod tri arwydd, yn Rhosgadfan, Rhostryfan a Ffrwd Cae Du, wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mawrth.
p)

11. Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf
    a) Ail-gylchu deunydd plastig – pryd fydd hyn yn cychwyn yn Gwynedd.
    b) GVT – angen holi am bolisi tai ar gyfer yr henoed yn y sir.
    c) NW – chwyn wrth ymyl yr ysgol yn Rhosgadfan.
    d) NW – shed ar safle'r hen neuadd, Rhosgadfan.
    e) GLW – dŵr ger Glyndŵr, Rhos Isaf – burst.
    f) Lori sgaffaldiau wedi'i pharcio ger yr ysgol yn Rhostryfan yn creu anhawster i yrrwyr a cherddwyr.

12. Cyfarfod nesaf: Mawrth 21ain yn Neuadd Llanwnda– i'w gadarnhau